



# Tai a Chwaraeon: Gwella Lles a darparu gwell gwerth am arian cyhoeddus

3 Mawrth 2015, 09:00 – 13:00, Stadiwm SWALEC, Caerdydd

26 Mawrth 2015, 09:00 – 13:00, Glasdir, Conwy

## Agenda

09:00 Cofrestru, lluniaeth ac arddangosfeydd

09:30 Gwybodaeth ymarferol

09:35 Prif araith

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru

09:45 **Sesiwn lawn – Pam y mae Tai ac Iechyd Corfforol yn fater o Synnwyr Cyffredin**

*Dr. Anne-Marie Cunningham  
Lisa Dobbins, Llywodraeth Cymru*

Mae mwy a mwy o ofynion ar weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, ar adeg pan fo cyllidebau'n cael eu gwasgu. Mae bod yn iach yn golygu mwy na chael y feddyginiaeth iawn ac mae amryw byd o ffactorau yn cyfrannu i iechyd pobl. Felly sut y gallwn sicrhau bod darparu tai a chyfleusterau chwaraeon yn rhan o'r ymgyrch i wneud Cymru'n wlad iachach? Yn y sesiwn lawn hon byddwn yn clywed gan Dr. Anne-Marie Cunningham, meddyg teulu a darlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd, a Lisa Dobbins o Lywodraeth Cymru, sydd ill dwy yn frwd iawn dros ganfod cyfleoedd i gydweithio er mwyn i'r cyhoedd yng Nghymru fanteisio ar well canlyniadau iechyd.

10:30 Cyfle i fynychu un o'r gweithdai a ganlyn:

### **Y Ganolfan Iechyd a Lles**

*John Hardy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

Mae Canolfan Gofal Iechyd a Lles Bae Colwyn yn gweithio er mwyn gwella iechyd pobl Sir Conwy drwy gyfrwng gweithgaredd corfforol. Cewch glywed mwy yn y gweithdy hwn am eu defnydd o ymarfer corff drwy bresgripsiwn, rheoli clefydau cronig neu adferiad o afiechyd aciwt neu gronig. Mae'r cydweithredu yn cefnogi pobl i symud o therapi â chymorth meddygol i weithgaredd corfforol yn y gymuned.

### **Mewn Un Lle**

*Chris Edmunds, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*

Defnyddiwyd y prosiect hwn er mwyn symleiddio'r broses o ddatblygu llety addas ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth yng Ngwent. Daeth pymtheg asiantaeth at ei gilydd i

rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn rhagweld beth fyddai'r angen am lety yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r wybodaeth honno wedyn i gynllunio'n strategol a dylanwadu ar y modd y darperir llety. Yn y gweithdy hwn cewch glywed sut y mae'r ffordd hon o fynd o gwmpas pethau wedi arwain at well gofal ac arbedion sylweddol.

### **Galluogi Pobl i fod yn Gorfforol Actif**

*Catherine Chin, Bwrdd Iechyd Prifysgoll Betsi Cadwaladr*

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwaraeon Anabledd Cymru wedi ymuno â'i gilydd i helpu mwy o bobl anabl ym mhob rhan o'r Gogledd i fod yn gorfforol actif a gwneud chwaraeon. Cewch glywed sut y mae gweithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd a chwaraeon yn cydweithio er mwyn dyblu nifer y bobl anabl sy'n gorfforol actif yn y Gogledd a darganfod pum athletwr lefel perfformiad erbyn diwedd 2016. Trwy addysgu gweithwyr iechyd am gyfleoedd i fod yn gorfforol actif, mae'r prosiect yn rhagweld y bydd pobl anabl yn yr ardal yn gallu byw bywydau gwell ac iachach, gan elwa drwy fod yn fwy actif.

### **Prosiect Goleudy**

*Elaine Ballard / Mark Sheridan, Cymdeithas Tai Taf*

A allai Gweithwyr Cefnogi Tenantiaid mewn Ysbytai helpu i leihau'r oedi o ran cefnogaeth i gleifion drwy atgyfeiriadau trydydd parti a gwaith papur a chyswllt diangen? Yn y gweithdy hwn cewch glywed sut mae'r Prosiect Goleudy wedi helpu i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel a sut mae'r gwasanaeth yn cynnig pecyn cymorth mwy cynhwysfawr trwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr cymdeithasol yr ysbytai a gweithwyr iechyd proffesiynol.

11:30	Paned
11:45	Cyfle arall i fynychu un o'r gweithdai uchod
12:45	Sesiwn lawn – Galwad i weithredu
12:45	Diwedd a chinio bwffe

## **Manylion cyswllt**

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â Dyfrig Williams ar 029 20320614 neu e-bostiwch [SharedLearningEvent@wao.gov.uk](mailto:SharedLearningEvent@wao.gov.uk).